



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn
Ffordd Y Grug
Llwyncelyn
Porth
Rhondda Cynon Taf
CF39 9TL**

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/06/2016

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynceilyn wedi'i lleoli ar lethrau Cwm Rhondda ar gyrion pentre'r Porth. Yr awdurdod lleol yw Rhondda Cynon Taf. Mae talgylch yr ysgol yn un eang iawn ac yn cynnwys Porth, Ynyshir, Aberllechau, Glynfach, Cymer, Trebanog a Threhafor. Mae'r ysgol yn rhannu'r safle gyda Ysgol Babanod Llwynceilyn, sy'n ysgol Saesneg ei chyfrwng.

Mae 302 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 42 o ddisgyblion meithrin llawn amser. Mae ganddi 10 dosbarth. Mae'r rhan fwyaf yn gymysg o ran oedran.

Mae tua 11% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 25% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol sy'n gyfartal a'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes plentyn â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ychydig o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith gartref ac mae tua 2% o ddisgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2010. Penodwyd y pennaeth ym Medi 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynceilyn yn 2015-2016 yw £2,931. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf yw £6,164 a'r lleiafswm yw £2,537. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynceilyn yn safle 84 o'r 105 ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- safonau llafar Cymraeg bron pob un o'r disgyblion yn dda
- ymddygiad a hunanddisgyblaeth y disgyblion yn arbennig
- presenoldeb a phrydlondeb cadarnhaol gan y disgyblion
- ansawdd yr addysgu yn gadarn dda ar draws yr ysgol
- gan yr ysgol brosesau asesu cynhwysfawr
- naws cydweithredol a theuluol yn gryfder ar draws yr ysgol
- amrywiaeth o raglenni ymyrraeth yn dwyn effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau safonau uchel, lles a Chymreictod y disgyblion
- aelodau'r uwch dîm rheoli yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol
- y staff i gyd yn gweithio fel tîm
- yr ysgol yn rhoi sylw trwyadl i flaenoriaethau cenedlaethol
- gweithdrefnau hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac wedi eu sefydlu'n llwyddiannus ym mywyd yr ysgol
- yr ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion

Argymhellion

- A1 Darparu tasgau heriol i ddisgyblion mwy abl i gyflawni'r lefelau uwch ar ddiwedd y ddau gyfnod
- A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm
- A3 Cryfhau ymhellach rôl y llywodraethwyr yn y broses hunanarfarnu er mwyn iddynt ddwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau sydd islaw'r hyn sy'n ddisgwylidig ar gyfer eu hoed. Er mai ychydig iawn o'r disgyblion sy'n dod o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg, mae medrau llafar rhan fwyaf y ddisgyblion yn datblygu'n dda yn fuan ar ôl dechrau'r ysgol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus wrth weithio yn eu dosbarthiadau ac wrth sgwrsio'n achlysurol o gwmpas yr ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio iaith a geirfa amrywiol a chywir ac yn medru mynegi barn synhwyrol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar eu hathrawon ac maent yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau pan fyddant yn siarad am eu gwaith. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion iaith naturiol yn y Gymraeg ac, erbyn diwedd y cyfnod, maent yn trafod eu gwaith yn ddeallus iawn. Mae safonau llafar bron pob un o'r disgyblion yn y Gymraeg yn gryfder yn yr ysgol.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Mae llawer o ddisgyblion ar draws y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau darllen ac yn gwneud hyn yn gynyddol hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn darllen gyda lefel dda o gywirdeb a mynegiant. Gall llawer drafod eu hoff lyfrau a chymeriadau yn briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn ystyrlon yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio eu uwch fedrau darllen yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ymchwilio ar y we yn ei gwaith thema ar yr Ail Ryfel Byd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn annibynnol, gyda mwyafrif o eiriau cyffredin wedi eu sillafu'n gywir a gydag atalnodi pwrpasol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf o'r disgyblion wedi gwneud cynnydd da wrth ddefnyddio'r iaith i ysgrifennu darnau estynedig ar draws y cwricwlwm. Maent yn amrywio cychwyn eu brawddegau drwy ddefnyddio ansoddeiriau addas ac ystod eang o eirfa briodol i gyd-fynd â'r testun, er enghraifft yn eu storïau am 'yr allwedd hud' ar 'twnel hudol'.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn dangos cynnydd cadarn yn eu medrau iaith gan ysgrifennu'n estynedig drwy wahanol genres, er enghraifft, 'ffeil ffeithiau' a disgrifiadau manwl am yr Ail Rhyfel Byd. Mae bron bob un o'r disgyblion yn arddangos parch tuag at eu gwaith, ac yn cofnodi tasgau'n daclus gyda llawysgrifen ddatblygedig.

Mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus ar draws y Cyfnod Sylfaen. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol i ddatrys problemau ymarferol. Gall llawer ddefnyddio unedau safonol i fesur a defnyddio'u medrau trin data yn bwrpasol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio arian yn briodol ac yn

dechrau deall gwaith ar amser. Mae rhifedd yn cael ei gymhwyso'n briodol gan ddisgyblion yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft, wrth greu llinell amser cestyll a chyfrifo pa mor boblogaidd yw'r cestyll wrth greu holiadur a throsglwyddo'r wybodaeth i greu graff pictogram pwrpasol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn ystod o gyd-destunau. Mae eu medrau mathemategol yn datblygu'n dda. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o rif a gwerth lle ac mae'r mwyafrif yn cyflawni cyfrifiadau pen yn gyflym ac yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio dulliau addas i ymgymryd â'u tasgau mesur a siâp. Maent yn llwyddo i ddehongli graffiau gwahanol a gofyn cwestiynau priodol ynglŷn â'r data. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth da o gyfesurynnau 2 rif o fewn eu gwaith thema ar Yr Aifft. Serch hynny, anghyson yw cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd mewn meysydd dysgu eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae ystod o raglenni cymorth cynhwysfawr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd grwpiau targed o ddisgyblion. Oherwydd hyn, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Serch hynny, nid yw'r disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal ar y lefelau uwch yn y ddau gyfnod.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deiliant disgwylidig gan amlaf yn is na'r cyfartaledd o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Ar y deiliant uwch na'r disgwyl, mae perfformiad wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% uwch.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwylidig (lefel 4) dros y ddwy flynedd ddiwethaf mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gwella ac yn gyfartal neu'n uwch na chyfartaledd o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwylidig mewn Cymraeg wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch. Mae perfformiad disgyblion mewn Saesneg wedi amrywio rhwng yr 50% isaf a'r 50% uwch. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng y 50% isaf a'r 25% uchaf.

Dros gyfnod o dair blynedd, mae'r merched wedi perfformio'n well na'r bechgyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliannau disgwylidig ac uwch ym mhob maes dysgu ac eithrio yn 2015 ar y deilliannau disgwylidig, lle mae bechgyn wedi perfformio'n well na'r merched. Mae'r bwlch wedi cau rhwng perfformiad bechgyn a merched ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefelau disgwylidig ac uwch yn y pynciau craidd.

Gan fod nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim yn isel, mae'n anodd cymharu eu cynnydd gyda gweddill y disgyblion mewn modd dibynadwy.

Lles: Da

Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chynghor ac yn cael eu trin gyda pharch. Mae system 'Bydis' a bocs pryderon yn gymorth buddiol i'r disgyblion pan fo angen. Mae gan rhan fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth da o fwyta'n iach a phwysigrwydd cadw'n heini ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd yfed dŵr.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cymryd rhan frwdfrydig mewn chwaraeon yn ystod gwersi ac yn manteisio ar yr ystod o weithgareddau allgyrsiol megis clybiau rygbi, pêl-droed a dawnsio.

Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth yn arbennig ac mae bron pob un disgybl yn foesgar a chwrtais. Mae lefelau diddordeb, brwdfrydedd ac ymroddiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ar draws yr ysgol. Maent yn dechrau dangos dealltwriaeth dda o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn weithgar iawn ac yn cwrdd yn wythnosol. Maent yn dangos balchder amlwg yn eu cyfraniad i sawl agwedd o fywyd yr ysgol, fel trefnu gweithgareddau i godi arian i Ysbyty Great Ormond Street a 'Sport Relief'.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cyfrannu'n sylweddol at gymuned ehangach yr ysgol. Maent yn ymfalchïo yn y cyfle i wasanaethu a diddanu trigolion y pentref drwy ganu, trefnu boreau coffi a hefyd cydweithio â'r gwasanaethau brys.

Mae lefelau presenoldeb yn dda ac wedi bod yn yr 50% uwch dros y tair blynedd ddiwethaf, o'u cymharu ag ysgolion tebyg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd a dangosant ymrwymiad cadarn i bresenoldeb da. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r athrawon yn cyd-gynllunio profiadau dysgu'n llwyddiannus er mwyn diwallu anghenion dysgwyr, sy'n bodloni gofynion statudol y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llawn. Mae cynlluniau gwaith yn fanwl ac yn drylwyr iawn.

Mae'r ysgol wedi ymgorffori elfennau pwysig y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn drwyadl yn eu cynllunio. Mae hyn yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd yn llwyddiannus dros ystod o ffurfiau gwahanol. Fodd bynnag, ni ddarperir digon o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwys eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm, ac yn enwedig ar y lefelau uwch.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion yn effeithiol. Mae gwaith grŵp o ddisgyblion, sef y 'swyddogion technoleg gwybodaeth', yn atgyfnerthu hyn, er enghraifft wrth ddatblygu'r elfen o gydweithio rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus er mwyn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau meddwl ymhob maes cwricwlaidd.

Mae'r ysgol yn darparu nifer fawr o weithgareddau allgyrsiol sydd yn cyfrannu at wella medrau llafaredd Cymraeg y disgyblion. Mae strategaethau pendant ar gyfer gwella medrau darllen y disgyblion ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwella medrau ysgrifennu'r disgyblion yn gryfder amlwg yn yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol, ac wedi'i wreiddio ym mhob agwedd o waith yr ysgol. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu mewn gweithgareddau allgyrsiol, megis yr Urdd, cystadlaethau corawl arwyddocaol a hefyd gwyliau chwaraeon, yn eang iawn. Mae ymweliadau oddi ar y safle a'r cydweithio â chyrrff proffesiynol, megis S4C a busnesau lleol, yn cyfoethogi'r elfen hon yn effeithiol. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r athrawon yn darparu profiadau buddiol sy'n hybu ymwybyddiaeth disgyblion o faterion cynaliadwyedd. Er enghraifft, ymgyrch arbed ynni, ailgychu batris a dillad a threfnu ymgyrch beicio i'r ysgol. Mae cyfleoedd diddorol i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd eang sy'n magu dealltwriaeth disgyblion o anghenion pobl lai ffodus yn llwyddiannus. Enghraifft dda yw'r cysylltiad buddiol ag ysgol yn Uganda. Mae llawer o'r disgyblion wedi mwynhau dysgu am draddodiadau cerddorol y wlad, a chymharu offerynnau.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn gadarn dda ar draws yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Mae gan yr athrawon wybodaeth drylwyr am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu. Mae athrawon yn cynllunio gwersi'n ofalus a manwl. O ganlyniad, maent yn ysgogi diddordeb a brwdfrydedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus.

Llwydda athrawon i greu awyrgylch gwaith effeithiol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn awyddus i ddysgu. Mae ethos o barch tuag at ei gilydd a gwaith tîm yn helpu i greu amgylchedd dysgu pwrpasol a brwdfrydig mewn dosbarthiadau.

Mae'r holl staff yn modelu iaith yn dda ac yn defnyddio dulliau holi a chwestiynu treiddgar yn rheolaidd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion, ac yn cryfhau ansawdd eu hiaith lafar yn llwyddiannus. Mae'r cydweithio arbennig rhwng yr athrawon a'r cynorthwyr yn rhoi cefnogaeth fuddiol i unigolion a grwpiau penodol. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith y disgyblion.

Mae gan yr ysgol brosesau asesu cynhwysfawr. Mae'r athrawon yn sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o nod bron pob gwर्स. Maent yn gosod meini prawf llwyddiant ymarferol, ac mewn llawer o wersi maent yn trafod llwyddiant disgyblion yn eu herbyn. Mae'r athrawon i gyd yn defnyddio nifer o strategaethau effeithiol i asesu dealltwriaeth disgyblion o gynnwys y sesiynau dysgu. Maent yn annog y disgyblion i fesur llwyddiant eu hunain a hefyd yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion asesu gwaith cyfoedion.

Mae'r athrawon yn marcio gwaith ysgrifenedig yn rheolaidd ac mae'r athrawon i gyd yn rhoi sylwadau adeiladol ar ran fwyaf o waith y disgyblion. Maent yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion wella gwaith eu hunain ar ôl derbyn sylwadau gan yr athrawon. Mae trefn olrhain cynnydd glir a thrwyadl ar waith ac mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r profion safonol ac asesiadau athrawon i fesur cynnydd disgyblion, ac i dargedu cefnogaeth effeithiol yn ôl yr angen.

Mae adroddiadau rhieni yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am safonau a chynnydd disgyblion, yn ogystal â thargedau ar gyfer gwelliant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae naws cydweithredol a theuluol yn gryfder ar draws yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Maent yn darparu clwb brecwast llwyddiannus ac yn atgyfnerthu pwysigwydd bocsys bwyd iachus.

Defnyddir gwasanaethau i ddarparu negeseuon pwysig i ddisgyblion ynglŷn â pharchu ei gilydd a pharchu gwahaniaethau. Mae darpariaeth gref ar gyfer ddatblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion. Mae cyfranogiad y disgyblion mewn gwasanaethau, trwy ganu caneuon ac emynau, yn ogystal â gosodiad o Weddi'r Arglwydd, yn ychwanegu naws arbennig i'r cyd-addoli.

Mae'r profiadau dysgu, a'r amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol, yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion fagu medrau cymdeithasol da.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol ac yn eu caniatáu iddynt wneud cynnydd da. Mae athrawon yn adnabod unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar, yn trefnu ymyrraeth ddefnyddiol, ac yn gwneud defnydd da o ddata wrth fonitro cynnydd disgyblion yn rheolaidd.

Mae'r amrywiaeth o raglenni ymyrraeth sy'n weithredol, megis rhaglenni datblygu medrau darllen a llythrennedd disgyblion, yn fuddiol iawn ac yn dwyn effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r athrawon a chynorthwyr yn sicrhau bod y cynlluniau addysg unigol yn bodloni gofynion statudol ac yn cynnwys llais y disgybl a'r rhieni yn briodol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o wasanaethau arbenigol yr awdurdod lleol ac eraill sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion a rhieni fel bo'r angen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan yr ysgol ethos croesawgar, cynhwysol a theuluol. Mae'r disgyblion yn cael hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r ddarpariaeth ynghyd â'r ystod fuddiol o weithgareddau ac ymweliadau diddorol. Maent yn cydweithio'n dda ac yn ofalgar tuag at ei gilydd. Mae gan yr ysgol gyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da, yn cynnwys offer TGCh perthnasol sy'n datblygu medrau digidol a dewis eang o lyfrau Saesneg a Chymraeg.

Er cyfyngder lle yn yr adeilad, gwneir defnydd da o bob cornel. Mae ardaloedd pwrpasol ac arddangosfeydd deniadol sy'n dathlu gweithgareddau a chyflawniadau disgyblion ynghyd ag ystafell amlsynhwyrdd gwerthfawr. Mae'r ardal allanol yn gyfyng ond gwneir y defnydd gorau ohoni ac mae ardaloedd bwrpasol y Cyfnod Sylfaen yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau safonau uchel, lles a Chymreictod y disgyblion. Mae'n darparu arweiniad cryf ac yn cydweithio'n llwyddiannus â disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni i gyflawni'r weledigaeth honno.

Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau drwy weithredu nifer o strategaethau gwerthfawr. Mae eu rôl yn y broses o fonitro a sicrhau ansawdd yn datblygu'n dda.

Mae cyfarfodydd staff yn digwydd yn rheolaidd, lle maent yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn cydweithio fel tîm.

Mae cefnogaeth y llywodraethwyr yn briodol ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwytbodol. Maent yn dadansoddi ystod o ddata perfformiad yn ddeallus ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gynnwys cynllun datblygu presennol yr ysgol ac o'u blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ysgol. Er eu bod wedi dechrau defnyddio'r wybodaeth hon i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn fwy effeithiol, nid yw eu rôl yn y broses o hunanarfarnu a monitro ansawdd eto wedi ei datblygu'n llawn.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Yn ogystal, mae strategaethu effeithiol ar waith i wella presenoldeb, lles a chyflawniad pob disgybl.

Gwella ansawdd: Da

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac wedi eu sefydlu'n llwyddiannus ym mywyd yr ysgol. Mae'r dadansoddiad o ddata yn rhan annatod o'r broses hon. Yn ogystal, casgla'r ysgol ystod eang o dystiolaeth werthfawr, gan gynnwys arsylwadau dosbarth, craffu ar waith disgyblion, a gwranddo ar safbwyntiau disgyblion a rhieni. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi helpu'r ysgol i ffurfio adroddiad hunanarfarnu defnyddiol sy'n adnabod yn glir ei chryfderau a'r meysydd y mae angen eu datblygu.

Mae cyswllt agos yn bodoli rhwng deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n gadarn ar godi safonau ac ehangu'r ddarpariaeth. Mae'n cyfeirio'n glir at strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei ddatblygu er mwyn codi safonau ymhellach. Mae'n cynnwys dangosyddion llwyddiant mesuradwy, cyfrifoldebau staff a chostau, ynghyd ag amserlen ar gyfer gwerthuso'r targedau.

Mae'r camau gweithredu eisoes yn cael effaith gadarnhaol, er enghraifft wrth wella medrau ysgrifennu disgyblion.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus o fewn ystod ddefnyddiol o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau dysgu yn dda.

Mae gan yr ysgol berthynas adeiladol â rhieni. Maent yn cefnogi'r gweithgareddau'r ysgol o fewn y gymuned leol yn gyson. Maent yn codi arian ar gyfer prynu adnoddau technoleg gwybodaeth defnyddiol i'r ysgol ac ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli gyda'r cylchoedd meithrin. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym wrth iddynt ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen. Mae trefniadau pontio buddiol iawn yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd sy'n sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt symud i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r staff yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion y clwstwr i ddatblygu a gweithredu arferion ar y cyd, er enghraifft i wella lefelau presenoldeb. Maent hefyd yn cydweithio'n llwyddiannus â'r ysgolion hyn i gyd-safoni a chymedroli gwaith disgyblion.

Mae partneriaeth agos gan yr ysgol â nifer o sefydliadau cymunedol. Mae hyn yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth â'r Urdd yn cynnig cyfleoedd da i ymestyn eu ymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru, yn ogystal â chystadlu mewn chwaraeon. Mae hyn i gyd yn cyfrannu'n dda at fagu medrau cymdeithasol, ieithyddol a lles y disgyblion.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol nifer briodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Gwneir defnydd da o'u harbenigedd. Mae tîm medrus a brwdfrydig o gynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth arbennig i ddisgyblion. Maent yn cynnig cefnogaeth gwerthfawr i athrawon ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar godi safon gwaith a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol ar gyfer lleihau baich gwaith athrawon ac maent yn defnyddio eu hamser digyswllt yn briodol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad staff mewn meysydd priodol, sy'n seiliedig ar flaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion eraill yn yr ardal. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion, er enghraifft ar safonau ysgrifennu disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn rheoli gwariant yn ofalus. Maent yn sicrhau bod y gyllideb wedi'i chysylltu'n dda ag amcanion, targedau a blaenoriaethau'r ysgol. Gwneir defnydd buddiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i hybu lles a medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad y disgyblion.

O ystyried deilliannau disgyblion, mae'r ysgol yn sicrhau gwerth da am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6742284 - YSGOL GYMRAEG LLWYNCELYN

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 306
 Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 10.4
 Grŵp PYD 2 (8%<PYD<=16%)

Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	40	38	37	49
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	72.5	78.9	89.2	91.8
Chwarter meincnod	4	4	3	2
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	40	38	37	49
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	77.5	86.8	91.9	91.8
Chwarter meincnod	4	3	3	3
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	15.0	28.9	27.0	32.7
Chwarter meincnod	3	2	3	3
Datblygiad mathemategol (MDT)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	40	38	37	49
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	80.0	89.5	91.9	91.8
Chwarter meincnod	4	3	3	3
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	7.5	23.7	18.9	30.6
Chwarter meincnod	4	3	4	3
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	40	38	37	49
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	82.5	94.7	97.3	98.0
Chwarter meincnod	4	3	3	3
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	42.5	34.2	45.9	55.1
Chwarter meincnod	2	4	3	3

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6742284 - YSGOL GYMRAEG LLWYNCELYN

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 306
 Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 10.4
 Grŵp PYD 2 (8%<PYD<=16%)

Cyfnod allweddol 2

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	22	38	37	35
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	81.8	86.8	94.6	100.0
Chwarter meincnod	3	3	2	1
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	22	38	37	35
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	86.4	86.8	94.6	100.0
Chwarter meincnod	3	4	2	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	31.8	36.8	45.9	34.3
Chwarter meincnod	3	3	2	4
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	22	38	37	35
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	86.4	89.5	94.6	100.0
Chwarter meincnod	3	2	2	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	22.7	34.2	40.5	37.1
Chwarter meincnod	3	2	2	2
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	22	38	37	35
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	86.4	92.1	97.3	100.0
Chwarter meincnod	3	3	2	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	31.8	42.1	51.4	51.4
Chwarter meincnod	3	2	1	2
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	22	38	37	35
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	86.4	92.1	94.6	100.0
Chwarter meincnod	4	3	3	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	31.8	28.9	37.8	37.1
Chwarter meincnod	3	3	3	3

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhliith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhliith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	140	140 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	135	132 98%	3 2%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	140	136 97%	4 3%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	140	137 98%	3 2%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	140	137 98%	3 2%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	133	133 100%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	139	139 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	140	135 96%	5 4%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	139	128 92%	11 8%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	139	131 94%	8 6%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	132	115 87%	17 13%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	135	121 90%	14 10%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	51	33 65%	16 31%	2 4%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	51	39 76%	11 22%	1 2%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		73%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	51	42 82%	7 14%	2 4%	0 0%	0	Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	51	32 63%	15 29%	3 6%	1 2%	0	Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		62%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	49	27 55%	20 41%	2 4%	0 0%	2	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		48%	47%	4%	1%		
Teaching is good.	50	34 68%	14 28%	1 2%	1 2%	1	Mae'r addysgu yn dda.
		62%	36%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	51	36 71%	14 27%	1 2%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		65%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	50	31 62%	14 28%	3 6%	2 4%	1	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		50%	42%	6%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	50	30 60%	17 34%	3 6%	0 0%	1	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		60%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	47	28 60%	17 36%	2 4%	0 0%	4	Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		60%	37%	2%	0%		
My child is safe at school.	51	33 65%	17 33%	1 2%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		67%	31%	2%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	42	28 67%	10 24%	3 7%	1 2%	9	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		56%	38%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	50	26 52%	17 34%	5 10%	2 4%	1	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		50%	41%	8%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	49	31 63%	15 31%	1 2%	2 4%	2	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	5%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	48	19 40%	25 52%	2 4%	2 4%	2	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		49%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	48	29 60%	18 38%	1 2%	0 0%	3	Mae'r ysgol yn helpu fy mhentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		58%	39%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	40	21 52%	14 35%	4 10%	1 2%	10	Mae fy mhentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		53%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	50	22 44%	27 54%	1 2%	0 0%	1	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		55%	39%	6%	1%		
The school is well run.	48	32 67%	14 29%	2 4%	0 0%	2	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		62%	33%	3%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Meinir Howells	Arolygydd Cofnodol
Rosemarie Wallace	Arolygydd Tîm
Michaela Leyshon	Arolygydd Lleyg
Peter Leggett	Arolygydd Cymheiriaid
Darren Booth-Taylor	Arolygydd Cymheiriaid
Mark Rees	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.